

## OWAIN CYFEILIOG (c. 1130 - 1197), tywysog a bardd

**Enw:** Owain Cyfeiliog  
**Dyddiad geni:** c. 1130  
**Dyddiad marw:** 1197  
**Priod:** Gwenllian ferch Owain Gwynedd  
**Plentyn:** Cadwallon  
**Plentyn:** Gwenwynwyn  
**Rhiant:** Gruffudd ap Maredudd  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** tywysog a bardd  
**Maes gweithgaredd:** Milwrol; Barddoniaeth; Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol; Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig  
**Awdur:** David Myrddin Lloyd

Mab Gruffudd frawd [Madog ap Maredudd](#), tywysog Powys. Yn 1149 fe'i gosodwyd o dan [Fadog](#) yn arglwydd ar Gyfeiliog. Tua 1153 ymosodwyd ar Gyfeiliog gan [Rys ap Gruffudd](#), ac er i Owain yn ddiweddarach briodi ei ferch, buont yn elynion am flynyddoedd. Wedi marw [Madog](#) yn 1160, Owain oedd ben ar Gyfeiliog, ac yn 1163 ymunodd ag [Owain Fychan](#) i gipio a chwalu castell brenhinol Carreg Hofa. Yn 1165 fe'i ceid gyda thywysogion eraill Powys a thaleithiau eraill Cymru yn y dygyfor mawr Cymreig o dan arweiniad [Owain Gwynedd](#) yn wynebu ymosodiad Harri II yn ardal y Berwyn. Eithr y flwyddyn ddilynol ymunodd ag [Owain Fychan](#) i yrru Iorwerth Goch allan o Fochnant, a'i rhannu rhyngddynt. (Ffin yw hon sy'n aros hyd heddiw rhwng siroedd Dinbych a Threfaldwyn.) Yn 1167 dychwelodd at hen bolisi ei ewythr, [Madog ap Maredudd](#), o gyfeillgarwch â Lloegr, a glynodd yn bur gyson wrth y polisi hwn o hyn ymlaen. Yn 1167 ymosodwyd arno gan [Owain Gwynedd](#) a [Rhys ap Gruffudd](#) o Ddeheubarth, cipiasant gwmwd Caereinion oddi arno a'i roi i [Owain Fychan](#), ond enillodd Owain Cyfeiliog ef yn ôl yn fuan trwy gymorth y Saeson.

Yn 1170 sefydlodd fynachlog Sistersaidd Ystrad Marchell. Cefnogodd y Saeson eto yn 1173, ac fe'i gwelid yng Nghyngor Rhydychen yn 1177. Ef oedd yr unig dywysog Cymreig i wrthod cefnogi ymgyrch yr archesgob Baldwin a Gerallt Gymro dros y Groesgad yn 1188, ac esgymunwyd ef am hynny. Ymddengys iddo estyn yr awenau i [Wenwynwyn](#), ei fab, yn 1195, ac ymddeol i fynachlog Ystrad Marchell, lle y bu farw yn 1197, ac yno y claddwyd ef. Ei wraig gyntaf oedd Gwenllian, ferch [Owain Gwynedd](#) (hi oedd mam [Gwenwynwyn](#)); merch [Rhys ap Gruffudd](#) oedd ei ail wraig.

Ym more'i yrfa ymddisgleiriai fel milwr, a'r wedd hon a glodforir gan [Gynddelw](#) yn y 'canu' iddo, ond yn ddiweddarach sonia [Gerallt](#) amdano fel un o'r tri thywysog yng Nghymru a 'ymddisgleiriai mewn cyfiawnder, doethineb a chymedroldeb yn ei reolaeth.' Sonia hefyd am ei dafod huawdl, a'i synnwyr craff. Eto fe arhosodd cof am ei yrfa filwrol hyd yn oed ymhlith y Normaniaid fel y gwelir yn chwedl [Fulk Fitz Warin](#). Y wedd hon a adlewyrchir gan Owain ei hun yn ei 'Hirlas Owain,' cerdd yn null y 'Gododdin,' sef canu yn eu tro i nifer o filwyr ifainc a oedd yn aelodau o'i 'deulu' neu ei osgordd. Y gerdd hon yw'r darlun gorau sydd gennym o fywyd tywysog Cymreig, y gwmniaeth agos rhyngddo a'i osgordd, a holl afiaith eu bywyd anturus. Ceir hefyd (*The Myvyrian Archaeology of Wales* [\[E\]](#), 192, a Llyfr Coch Hergest, 1395-6) gyfres o 'Englynion a gant teulu Ywein Kyveilyawc i gylchychau Kymry' - ond Gwynedd a Phowys yw'r wlad a gyrchir ganddynt.

### Awdur

David Myrddin Lloyd, (1909 - 1981)

### Ffynonellau

*Brut y Tywysogion*

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest* (London 1911), Cyf. I

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest* (London 1911), Cyf. II

P. Barbier, *The Age of Owain Gwynedd an attempt at a connected account of the history of Wales from December, 1135, to November, 1170* (Llundain 1908)

*Giraldi Cambrensis Opera* (1861-91)

*Collections Historical and Archaeological relating to Montgomeryshire*, iv (1871)

barddoniaeth yn *Llawysgrif Hendregadredd* (1933)

*The Myvyrian Archaeology of Wales (1801-1807)*, i, 265-268

'Llyfr Coch Hergest' (*Jesus College MS. cxi*) - testun a chyfieithiad yn *Y Cymmrodor*, xxxii, gan T. Gwynn Jones

## Darllen Pellach

Archifau LIGC: [Wynnstey Estate Records: Charters of the Abbey of Ystrad Marchell: Confirmation by King John, 1200, April 11](#)

Archifau LIGC: [Wynnstey Estate Records: Charters of the Abbey of Ystrad Marchell: Inspeximus and confirmation by Edward de Cherleton, lord of Powys, 1420, August 1](#)


Erthygl Wicipedia: [Owain Cyfeiliog](#)

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: [41496384](#)

Wikidata: [Q528311](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

